# Datblygiad Creadigol







chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow
cyfnod sylfaen 3–7 foundation phase




**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Datblygiad Creadigol

**Cynulleidfa** Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phwyllgorau rheoli yn y sector nas cynhelir yng Nghymru; awdurdodau addysg lleol; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg** Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi Maes Dysgu Datblygiad Creadigol yn y ddogfen *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar y sgiliau a'r wybodaeth y bydd plant yn eu caffael, ynghyd ag astudiaethau achos sy'n ymdrin â rhoi hyn ar waith mewn lleoliadau ac ysgolion. Ni ddylid edrych ar y canllawiau hyn na'r Maes Dysgu na'u cyflwyno heb ystyried meysydd eraill; dylid cynllunio ar ei gyfer ar draws y cwricwlwm.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Llawr 10, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0800 083 6003
Ffacs: 029 2037 5496
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 029 2037 5427
Ffacs: 029 2037 5494
Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk

Cyf: AC/GM/0852
ISBN: 9780750446945
Mehefin
A-EAC-02-01-qA686756/1/AB
© Hawlfraint y Goron 2008

# Cynnwys


**Cefndir** 2

**Cyflwyniad** 4
Y plentyn sy'n datblygu
Y cyd-destun dysgu

**Datblygu sgiliau** 8

**Rôl yr ymarferydd** 10
Astudiaeth achos: Paentio murlun
Astudiaeth achos: Gardd y Cyfnod Sylfaen

**Celf, crefft a dylunio** 14
Astudiaeth achos: Cennin pedr

**Cerddoriaeth** 18
Astudiaeth achos: Cerddoriaeth jync

**Symud creadigol** 20
Astudiaeth achos: Dinosoriaid ydyn ni
Astudiaeth achos: Y pantomeim cerddorol

**Cynllunio** 24

**Cynnydd mewn dysgu** 26

**Datblygiad Creadigol ar draws y cwricwlwm** 28

**Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol** 30

**Geirfa'r Cyfnod Sylfaen** 34

**Cydnabyddiaethau** 40

# Cefndir

Roedd y cynigion yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu: Y Cyfnod Sylfaen 3–7 oed* yn cynnwys datblygu cwricwlwm a oedd yn cryfhau ac yn cysylltu'r egwyddorion a'r arfer yn nogfen ACCAC *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol* (2000) â'r rhaglenni astudio a'r datganiadau ffocws yng Nghyfnod Allweddol 1 y cwricwlwm cenedlaethol, a hynny er mwyn creu cwricwlwm cyfoethog dan saith Maes Dysgu i blant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn dadlau o blaid meithrin a hybu cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cartref a darparwyr gofal ac addysg.

Mae ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru at addysg a dysgu gydol oes wedi'i nodi yng nghyd-destun ehangach ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn gyffredinol.

Mae gennym saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Y nodau hyn fydd yn sail i holl weithgareddau'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS).

Rydym yn anelu at sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael dechrau da, ynghyd â'r seiliau gorau posibl ar gyfer tyfu a datblygu yn y dyfodol
- yn cael cyfle i fanteisio ar amrywiaeth eang o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys cyfleoedd i feithrin sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol
- yn cael mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan sicrhau hefyd nad ydyn nhw yn cael eu cam-drin na'u herlid ac nad oes unrhyw un yn camfanteisio arnyn nhw
- yn cael manteisio ar amrediad o weithgareddau chwarae, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol
- yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
- yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol
- heb fod o dan anfantais o ganlyniad i unrhyw fath o dlodi.

Mae’r canllawiau hyn yn cefnogi Maes Dysgu Datblygiad Creadigol yn y ddogfen *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Mae’r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar y sgiliau a’r wybodaeth y bydd plant yn eu caffael, ynghyd ag astudiaethau achos sy’n ymdrin â rhoi hyn ar waith mewn lleoliadau ac ysgolion. Ni ddylid edrych ar y canllawiau hyn na’r Maes Dysgu na’u cyflwyno heb ystyried meysydd eraill; dylid cynllunio ar ei gyfer ar draws y cwricwlwm.



# Cyflwyniad



Dylai plant fod yn datblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd yn barhaus ar draws y cwricwlwm. Dylid ysgogi eu chwilfrydedd a'u hawydd i ddysgu drwy brofiadau synhwyraidd bob dydd, dan do ac yn yr awyr agored. Dylai plant gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol, dychmygus a mynegiannol mewn celf, crefft, dylunio, cerddoriaeth, dawns a symud. Mae'r Maes Dysgu hwn yn ymwneud â datblygu ffyrdd unigol plant o gynrychioli eu syniadau, eu teimladau a'u hemosiynau yn ddychmygus drwy amrywiol fathau o hunanfynegiant, megis peintio, gwneud modelau, chwarae rôl, cerddoriaeth, barddoniaeth, dawns, ysgrifennu a datblygu empathi ag eraill. Dylai plant archwilio ystod eang o ysgogiadau, datblygu eu gallu i gyfathrebu a mynegi eu syniadau creadigol, eu teimladau a'u safbwyntiau eu hunain a myfyrio ar eu gwaith.

**Dylid ysgogi eu chwilfrydedd a'u hawydd i ddysgu drwy brofiadau synhwyraidd bob dydd, dan do ac yn yr awyr agored.**

> 'Mae'r celfyddydau yn allweddol i rai plant ac yn nwylo ymarferwyr dawnus ac ymrwymedig maen nhw'n allweddol i bob plentyn – nid yn unig maen nhw'n agor meddwl y dysgwr, maen nhw wedyn yn cynnig pleser, her a chyfle parhaus.'
> (yr Athro Tim Brighouse)

Yn ei hanfod, ystyr creadigrwydd yw defnyddio syniadau dychmygus i greu rhywbeth, er nad yw creadigrwydd ei hun yn weithgaredd.

> 'Mae ymgysylltu â'r celfyddydau yn cyfoethogi bywydau pobl ifanc, yn cynyddu cydlyniant cymdeithasol ac yn rhoi cyfle i ddysgu sgiliau…'
> *Cyfranogiad yn y Celfyddydau gan Bobl Ifanc – Adroddiad Terfynol* (Cyngor Celfyddydau Cymru)

## Y plentyn sy'n datblygu

Mae'r broses greadigol yn fwy pwysig na'r canlyniad yn ystod y camau datblygu cynnar am ei bod yn galluogi plant i ddatblygu'r broses o feddwl a chyfleu syniadau mewn ffordd symbolaidd sydd fwyaf addas iddyn nhw. Mae'r gallu hwn i gynrychioli syniadau'n symbolaidd wrth wraidd cyfathrebu a gall gael ei gymhwyso ar draws y cwricwlwm.

- Mae gwerthfawrogi syniadau gwreiddiol plant yn arbennig o bwysig i'w datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles gan ei fod yn rhoi hwb i'w hunan-barch.
- Mae hyrwyddo creadigrwydd yn cynnwys ysgogi chwilfrydedd a dychymyg plant, hybu hunan-barch ac annog hyder i roi cynnig ar bethau newydd.
- Mae datblygiad creadigol plant hefyd yn gysylltiedig yn agos â'u datblygiad diwylliannol oherwydd gall syniadau a gwaith arlunwyr, crefftwyr, cerddorion, awduron, dylunwyr, actorion a dawnswyr lleol ac enwog o heddiw ac yn y gorffennol gael dylanwad mawr ar syniadau plant.
- Fodd bynnag, dydy creadigrwydd ddim yn gyfyngedig i'r celfyddydau gan fod meddwl yn greadigol yn hanfodol i feysydd eraill o fywyd bob dydd gan gynnwys mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg.
- O oedran ifanc dylai plant gael cyfleoedd i ddatblygu eu gallu creadigol ar draws yr holl Feysydd Dysgu.

## Y cyd-destun dysgu

Does dim atebion cywir ac anghywir mewn gweithgareddau creadigol, ymchwiliol nac archwiliadol. Mae pob ymateb yn unigryw a dylai gael ei werthfawrogi.





- Dylid meithrin creadigrwydd plant mewn amgylchedd cyfoethog sy'n ysgogi'r dychymyg ac yn cynnig cyfleoedd cyffrous i arbrofi â phrofiadau ac adnoddau newydd.
- Mae pob math o greadigrwydd yn gofyn am le ac amser i blant archwilio, datblygu a mynegi eu hunain, defnyddio'r dychymyg a chyfleu eu syniadau dan do ac yn yr awyr agored.
- Gall yr amgylchedd naturiol gael ei ddefnyddio i ganfod, ymchwilio, chwarae'n ddramatig/dychmygus, adeiladu a datrys problemau.
- Mae'r amgylchedd awyr agored hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau creadigol mewn ffyrdd sydd ddim bob tro yn bosibl dan do, fel paentio ar ddarnau mawr o bapur wedi'u gosod ar wal neu ffens, rhai mathau o chwarae, drama neu symud dychmygus gyda phropiau a darnau hir o ddefnydd, creu cynlluniau neu fapiau ar raddfa fawr, neu greu pethau o ddail, brigau a defnyddiau naturiol eraill.
- Gall cyfleoedd gael eu cynnig yn yr awyr agored i archwilio synau a gaiff eu gwneud drwy hongian clochfarrau gwynt a phethau eraill sy'n gwneud sŵn mae'r plant wedi'u gwneud o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu.

**Dylid gosod amrywiaeth o adnoddau'n barod i'w defnyddio yn yr awyr agored.**

- Dylid gosod amrywiaeth o adnoddau'n barod i'w defnyddio yn yr awyr agored.
- Bydd arddangosfeydd rhyngweithiol o bethau sy'n gwneud sŵn yn annog plant i archwilio ac arbrofi.
- P'un a yw hynny dan do neu yn yr awyr agored, dylai plant gael eu hannog i ddatblygu'r hyder i:

  – wneud dewisiadau'n rhydd ac yn annibynnol
  – gweithio'n unigol neu ar y cyd
  – gweithio yn ôl eu cyflymder
  – gwneud camgymeriadau a rhoi cynnig arni eto.

- Wrth i blant fagu hyder a chymhwysedd wrth ddefnyddio'r adnoddau, dylai ymarferwyr ddarparu cydbwysedd o ddewis a gweithgareddau strwythuredig er mwyn addysgu sgiliau penodol, er enghraifft gweithio gyda chlai neu wehyddu.


- Caiff plant fudd o ymarferydd profiadol sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw ond dylai plant gael eu hannog i ymateb mewn ffordd wreiddiol. Bydd technegau cwestiynu da gan ymarferwyr yn ymestyn y dysgu i'r plant.
- Dylai'r sgiliau mae plant yn eu dysgu gael eu cymhwyso i'w gwaith; er enghraifft, pan fydd plant yn gwneud cerdyn ar gyfer achlysur arbennig, dylid gadael iddyn nhw greu eu dyluniad eu hunain, dewis y defnyddiau, y dull a'r lliwiau.
- Dylai ymatebion creadigol plant adlewyrchu eu hunigoliaeth, eu dewisiadau a'u syniadau.
- Weithiau bydd y broses greadigol yn un dros dro heb unrhyw ddeilliant penodol.
- Mae gwerth cynhenid i'r broses o greu y gellir ond ei fesur drwy gyfraniad a lles plant, nid drwy gymhwyso meini prawf asesu i ddeilliannau.



# Datblygu sgiliau

- Caiff plant eu hysgogi gan weithgareddau chwarae ym mhob cam o'u datblygiad. Wrth i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae creadigol sy'n eu galluogi i ddefnyddio defnyddiau newydd, gwneud lluniau a modelau, chwarae rolau gwahanol, creu synau, cerddoriaeth a symud, naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn grwpiau bach, maen nhw'n datblygu'r sgiliau canlynol:

  – sgiliau llawdrin
  – modelu
  – gwrando
  – ymateb
  – trafod
  – cyfathrebu
  – meddwl
  – myfyrio
  – datrys problemau
  – dyfalbarhau
  – cydweithredu
  – gwerthuso (eu gwaith nhw a gwaith pobl eraill)
  – arsylwi
  – archwilio
  – arbrofi
  – ymchwilio.



**Dylai plant gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau gweledol, sgiliau clybodol a'u sgiliau cinesthetig ymarferol.**

- Mae creadigrwydd yn galluogi plant i ymateb a, gydag anogaeth, i ddatblygu'r hyder i geisio cyfleu'r teimladau maen nhw wedi'u profi, gan gynnwys:

  – synhwyraidd
  – hwyl
  – mwynhad
  – cyffro
  – hapusrwydd
  – tristwch
  – ofn
  – siom
  – bod yn rhan o rywbeth
  – dicter
  – llwyddiant.

- Dylai plant gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau gweledol, sgiliau clybodol a'u sgiliau cinesthetig ymarferol. Trwy'r cyfleoedd yma bydd plant yn canfod cyfrwng sy'n addas i'w cryfderau penodol ac sy'n eu galluogi i gyfathrebu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

- Bydd plant yn gwneud cynnydd o ran Datblygiad Creadigol yn yr un modd ag y byddan nhw mewn Meysydd Dysgu eraill, drwy:

  – archwilio, er enghraifft defnyddio defnyddiau newydd ac arbrofi â nhw

  – datblygu sgiliau, er enghraifft dysgu defnyddio'r defnyddiau mewn ffordd benodol neu amrywiaeth o ffyrdd

  – cymhwyso, er enghraifft defnyddio eu sgiliau i fod yn arloesol a chreu eu cynrychioliadau eu hunain i gyfleu eu syniadau i eraill a datrys problemau.

# Rôl yr ymarferydd



Rôl yr ymarferydd yw darparu dysgu gweithredol sy'n seiliedig ar brofiad drwy gynllunio'n ofalus, trefnu, hwyluso, herio, arsylwi, rhyngweithio, ymyrryd/cefnogi, monitro a gwerthuso. Yn ogystal, mae rôl yr ymarferydd yn cynnwys darparu'r canlynol er mwyn rhoi'r cyfleoedd gorau i blant o ran eu datblygiad creadigol:

- amgylchedd dysgu ysgogol, amlsynhwyraidd â chasgliadau o wrthrychau a deunyddiau cyfeirio sy'n adlewyrchu gwahanol ddiwylliannau i'w hysbrydoli, gan gynnwys llyfrau, ffotograffau, paentiadau, crochenwaith, cerfwaith, cerflunwaith, offerynnau, arddangosfeydd rhyngweithiol ac arddangosfeydd o waith gan arlunwyr, crefftwyr a cherddorion lleol ac enwog, heddiw ac yn y gorffennol.

**Gall canllawiau syml gael eu darparu mewn lluniau a geiriau am offerynnau cerddorol ac awgrymiadau o sut i'w chwarae.**

- darnau o gerddoriaeth a ddewiswyd yn ofalus sy'n gallu ysgogi gweithgaredd mewn unrhyw Faes Dysgu. Er enghraifft:
  - – cyflwyno topig ac ysgogi'r dychymyg
  - – ysbrydoli llun, paentiad, darn o ysgrifennu creadigol
  - – annog ymateb drwy symud neu ddawns
  - – dylanwad tawelu i'w hannog i fyfyrio
- ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau creadigol gan gynnwys, er enghraifft, symud a drama, efelychiadau mawr a defnyddio adnoddau naturiol dros dro
- ardal 'gweithdy' neu 'stiwdio' lle gall gwaith creadigol sy'n mynd rhagddo gael ei adael i'w gwblhau'n ddiweddarach
- adnoddau hygyrch, wedi'u labeli'n glir â lluniau neu eiriau, yn agos i ardal y gweithdy. Dylai'r rhain gynnwys defnyddiau celf a defnyddiau wedi'u hailgylchu o safon. Dylen nhw fod yn gyfnewidiol â'r potensial i gael eu dewis ar gyfer dibenion neu achlysuron gwahanol

- offerynnau cerdd wedi'u haddasu a'u cynhyrchu'n fasnachol gan gynnwys offerynnau o Gymru a gwledydd a diwylliannau eraill. Gall canllawiau syml gael eu darparu mewn lluniau a geiriau am yr offerynnau ac awgrymiadau o sut i'w chwarae
- cyfleusterau golchi dwylo wrth ymyl yr ardal greadigol
- amser i gynllunio, cwblhau, ailystyried, trafod a gwerthuso gwaith.

Dylai ymarferwyr roi cyfleoedd i blant:

- archwilio
- symud defnyddiau o un man i'r llall os yw'n ategu'r dysgu
- arbrofi ag ystod eang o ddefnyddiau er mwyn iddyn nhw wneud dewisiadau
- parchu a gwerthfawrogi syniadau plant eraill
- derbyn help a chefnogaeth i symud ymlaen a datblygu sgiliau newydd
- defnyddio amrywiaeth o offer TGCh a meddalwedd gyfrifiadurol addas i helpu i ddatblygu creadigrwydd a sgiliau.

Dylai ymarferwyr annog plant i:

- wahaniaethu rhwng gwahanol ddefnyddiau a thechnegau
- arsylwi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill
- hunanwerthuso er mwyn myfyrio ar yr hyn maen nhw'n ei hoffi neu'r hyn dydyn nhw ddim yn ei hoffi am eu gwaith ac annog gwelliant.

Dylai ymarferwyr gasglu tystiolaeth o'r prosesau creadigol drwy nodiadau arsylwi, ffotograffau, recordiadau sain neu fideo er mwyn cefnogi'r broses werthuso.

**Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos plant yn cymryd rhan mewn trawsnewid eu hardal awyr agored.**

## Paentio murlun

Cafodd murlun ei greu y tu allan er mwyn gwella'r ardal chwarae awyr agored ar ei newydd wedd ac annog mwy o ddefnydd ohoni. Roedd llawr meddal glas newydd wedi'i osod, gan ysgogi'r syniad ei fod yn symbol o ddŵr. Roedd sawl syniad wedi deillio o hyn, ac roedd plant yn dechrau gweithio'n greadigol yn yr ardal hon. Felly pan ofynnwyd iddyn nhw beth fydden nhw'n hoffi ei ddewis fel thema ar gyfer yr iard hon, dywedodd y plant eu bod am weld golygfa glan môr.



Mae'r ffotograffau yn dangos y gwaith yn mynd rhagddo, a'r olygfa wedi'i gorffen. Maen nhw'n dangos y newid syml ond trawiadol o ardal ddiflas a di-liw i fan chwarae llachar a dychmygus.



**Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut roedd plant yn ymwneud â chynllunio gardd o'r cychwyn.**

## Gardd y Cyfnod Sylfaen

Fel ysgol beilot ar gyfer y Cyfnod Sylfaen newydd, gwnaethon ni fel staff gydnabod y pwysigrwydd o ddefnyddio'r awyr agored. Sylweddolon ni'n gyflym fod angen trawsnewid ein hardal goncrid ddiflas, a chawson ni'r syniad o greu 'ystafell ddosbarth' awyr agored (gardd). Bu'r plant yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r ardd o'r cychwyn cyntaf a rhoddodd hyn ymdeimlad o berchenogaeth a balchder iddyn nhw o'u hardal newydd.

Drwy gydol tymor yr haf cynllunion ni sawl gweithgaredd ymarferol, a roddodd brofiadau ystyrlon i'r plant ynghŷd â'u helpu i ysgogi eu synhwyrau ac archwilio ein hystafell ddosbarth awyr agored wych.

Roedd y plant am dyfu llysiau, felly prynon ni hadau hawdd eu tyfu. Tyfodd y letys yn gyflym iawn ac roedd y radisys, y corbwmpenni, y pys a'r tomatos bach i gyd yn llwyddiannus ac yn flasus iawn.

Cymerodd Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ran drwy ysgrifennu disgrifiadau o'r amrywiol blanhigion. Cafodd rhain eu lamineiddio wedyn a'u rhoi yn yr ardd i'r ymwelwyr eu darllen.

Drwy gydol y tymor, defnyddiodd pob grŵp blwyddyn y Cyfnod Sylfaen yr ardd fel sail ar gyfer gwaith pellach. Creodd y plant eu portreadau artistig eu hunain o'r ardd gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau. Erbyn diwedd y tymor roedd gennyn ni enghreifftiau o ludweithiau, paentiadau, cerfluniau clai, seinluniau a hyd yn oed cerddi a gyflwynodd y plant am eu gardd nhw eu hunain.

Roedd y prosiect hwn yn frawychus i ddechrau; fodd bynnag, unwaith i ni ddechrau trafod y syniadau, gwelon ni fod brwdfrydedd a chyffro'r plant yn dylanwadu arnon ni. Mae plant yn cyfrannu llawer o syniadau gwych ac os byddwch chi'n gadael iddyn nhw gyfrannu yna byddan nhw'n datblygu'n naturiol a bydd y profiadau'n fwy pleserus a hefyd yn fwy ystyrlon a chofiadwy iddyn nhw, yn y pen draw.

# Celf, crefft a dylunio



Mae celf, crefft a dylunio yn cynnwys plant mewn dysgu i ddefnyddio'u holl synhwyrau, eu sgiliau arsylwi, eu cof, eu teimladau a'u dychymyg i gyd ynghyd â mynegi eu hymatebion drwy greu pethau dau ddimensiwn a thri dimensiwn.

Dylai profiadau dysgu plant rhwng tri a saith oed gynnwys, er enghraifft:

- archwilio lliw gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau a'r broses o gyfuno neu gymysgu lliwiau at ddiben penodol
- archwilio gweadau a dewis amryw ddefnyddiau at ddiben creadigol, gan gynnwys tecstilau a phren
- dysgu am briodweddau defnyddiau newydd drwy ymdrin â nhw, arbrofi â nhw ac archwilio eu potensial. Dylid annog trafodaeth a datblygu geirfa newydd
- archwilio clai, toes a defnyddiau hydrin eraill a'u defnyddio i ddatblygu dealltwriaeth plant o siâp a ffurf
- archwilio gwahanol fathau o ddefnyddiau/papur, sef unrhyw ddefnyddiau hyblyg y gellir eu torri gan ddefnyddio siswrn (cerdyn, papur, seloffen, ac ati), eu disgrifio ac yna rhoi cynnig ar dechnegau cerflunio papur fel rholio a phlygu i greu ffan
- ystyried effeithiau tynnu llun â chreonau ac arbrofi â phensiliau, siarcol, pastelau, sialc olew a phastelau olew, pennau ac inciau, a dysgu am linell ac arlliw.
- gwneud marciau i gynrychioli syniadau, tynnu lluniau o arsylwadau ac ysgrifennu'n greadigol
- defnyddio gwahanol ddulliau o ddefnyddio eu cyfryngau, gan gynnwys rhannau o'r corff fel bysedd neu draed ac amrywiaeth o offer neu wrthrychau
- defnyddio rhaglenni TGCh i baentio a thynnu lluniau creadigol ac arbrofi â gwahanol opsiynau
- wrth i'w sgiliau llawdrin manwl a'u cydsymud llaw–llygad ddatblygu bydd plant yn cael cyfleoedd i ddefnyddio defnyddiau'n fwy medrus, dysgu technegau ar gyfer trin offer a chyfarpar bach, a dewis defnyddiau ac offer priodol ar gyfer gweithgaredd

**Dylai cyfuniad o sgiliau a thechnegau gael eu hannog, er enghraifft, wrth greu pypedau â rhannau sy'n symud.**

- cyfleoedd i blant gymhwyso eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gyfryngau mewn gweithgareddau fel printio, creu patrwm, mosaig, gwehyddu a gwneud modelau. Dylai cyfuniad o sgiliau a thechnegau gael eu hannog, er enghraifft, wrth greu pypedau â rhannau sy'n symud
- plant yn cael cyfleoedd i gynllunio a chreu pethau ar raddfa fawr yn yr awyr agored gan ddefnyddio defnyddiau a brynwyd, defnyddiau naturiol a defnyddiau wedi'u hailgylchu
- cyfleoedd i blant allu trafod eu profiadau a'u cynrychioli mewn ffordd o'u dewis, gan ddefnyddio defnyddiau a thechnegau priodol
- cyfleoedd (wrth i ddatblygiad cymdeithasol a sgiliau rhyngbersonol plant wella) i gydweithio mewn grwpiau bach er mwyn creu ymatebion creadigol ar y cyd
- cyfleoedd i blant allu esbonio a gwerthuso'r broses maen nhw'n ei dewis a nodi beth oedden nhw'n fodlon arno neu beth y bydden nhw'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf
- cyfleoedd i brofiadau a chreadigrwydd plant gael eu hategu drwy arsylwi a thrafod gwaith arlunwyr a chrefftwyr o Gymru a gwledydd a diwylliannau eraill.



**Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut roedd ymweliad â'r siop flodau wedi rhoi oriau o hwyl i ni.**

## Cennin pedr

Yn ystod wythnos Eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi, ymwelodd ein dosbarth â siop flodau leol a phrynu tusw o gennin pedr. Ar ôl dychwelyd, roedd y plant am arddangos y blodau yn yr ystafell ddosbarth felly gwnaethon ni eu rhoi mewn fasys a gwneud yn siŵr ein bod yn rhoi dŵr iddyn nhw bob dydd.

Yn ystod prynhawn celf yn ddiweddarach yr wythnos honno, roedd hyn yn ganolbwynt perffaith i ymarferion tynnu lluniau, ac yn gyfle i ddangos yr holl wahanol ffyrdd posibl o fod yn greadigol wrth dynnu llun gwrthrych.

Gofynnodd rhai o'r plant am bensiliau lliw ac aeth eraill i'r 'ardal greadigol' yn yr ystafell ddosbarth gan ddefnyddio papur sidan i wneud gludwaith cennin pedr. Defnyddiodd plant eraill raglen ddarlunio gyfrifiadurol i wneud cennin pedr graffig. Gwnaeth un grŵp eu cennin pedr 3-D eu hunain gan ddefnyddio gwellt gwyrdd a darnau o flychau wyau wedi'u paentio'n felyn.

Rhoddodd yr ymweliad hwnnw â'r siop flodau oriau o hwyl i ni.



# Cerddoriaeth



**Gall plant ymateb i gerddoriaeth drwy symud, dawns, lluniau, geiriau neu fathau eraill o fynegiant.**

Dylai plant fwynhau cyfleoedd ymarferol i greu synau, archwilio amrywiaeth o wahanol ffynonellau sain, chwarae offerynnau cerdd syml ac ymateb i wahanol synau. Bydd hyn yn annog llawer o sgiliau, gan gynnwys sgiliau gwrando, sy'n sgìl allweddol ym mhob Maes Dysgu.

- Drwy gyfleoedd i ddefnyddio eu lleisiau, cymryd rhan mewn hwiangerddi, caneuon actol, siantiau, ac ati, yn unigol ac mewn grŵp, bydd plant yn dysgu dynwared, cofio a mewnoli (clywed yn eu pennau) patrymau cerddorol a chaneuon byr a'u galw i gof. Hefyd, drwy glapio i'r rhigymau hyn bydd plant yn dysgu sut mae cadw curiad cyson.
- Wrth i blant ddysgu mwy o ganeuon dylen nhw ddysgu canu gyda mwy o fynegiant, gan reoli eu hanadl, yr osgo, yr ynganiad, y ddeinameg a'r traw yn gynyddol.
- Gall gemau a straeon â recordiadau o synau bob dydd gael eu defnyddio i ddatblygu dealltwriaeth a chydnabyddiaeth o synau a gaiff eu gwneud gan wahanol wrthrychau, anifeiliaid neu ddefnyddiau. Byddan nhw hefyd yn ymestyn sgiliau gwrando plant a'u gallu i ganolbwyntio.
- Dylai plant ddod yn gyfarwydd ag amrywiaeth o offerynnau traw a didraw ac arbrofi â'r gwahanol synau y maen nhw'n eu creu yn unigol ac mewn grwpiau bach. Dylai'r offerynnau fod ar gael mewn cornel sŵn ar wahân i weithgareddau tawelach fel y gall y plant glywed y seiniau ac arbrofi â nhw heb darfu ar eraill.
- Gall gweithgareddau mewn grwpiau bach gynnwys chwarae'r offerynnau fel cyfeiliant i ganu, gan gadw curiad cyson, gwrando ar eraill, dewis offerynnau priodol a chymryd eu tro i'w chwarae mewn ymateb i wahanol ysgogiadau (er enghraifft cynrychioli lluniau neu gymeriadau mewn stori neu farddoniaeth).
- Gall plant ymateb i gerddoriaeth drwy symud, dawns, lluniau, geiriau neu fathau eraill o fynegiant.
- Bydd chwarae alawon a chyfeiliannau syml, ynghyd â chreu patrymau sain, yn arwain at gyfansoddiadau syml.
- Gall plant ddefnyddio offer TGCh i arbrofi â synau, eu creu a'u recordio.

- Gall TGCh gael ei defnyddio hefyd i wella dealltwriaeth plant drwy ddefnyddio meddalwedd gyfrifiadurol briodol i ymateb i gerddoriaeth a'i chreu.
- Wrth i'w sgiliau cyfansoddi ddatblygu gall cyfansoddiadau plant gael eu perfformio a'u recordio gan ddefnyddio TGCh i greu recordiadau sain.
- Gall plant ddatblygu ymwybyddiaeth o wahanol gyfnodau a mathau o gerddoriaeth a rhai o'r cantorion neu'r cyfansoddwyr maen nhw'n clywed eu cerddoriaeth.
- Bydd cyfleoedd i glywed recordiadau a cherddoriaeth fyw o Gymru a gwledydd a diwylliannau eraill yn ategu profiadau plant. Gall ymweld â cherddorion gynnig dimensiwn ychwanegol o ran eu harbenigedd.

**Mae'r astudiaeth achos hon yn edrych ar sut gwnaeth rhai plant arbrofi gyda gwneud cerddoriaeth trwy ddefnyddio defnyddiau bob dydd.**

## Cerddoriaeth jync

Roedd un neu ddau o'n plant ym Mlwyddyn 2 eisoes wedi dechrau dysgu offeryn cerdd gartref, ond roedden ni am atgyfnerthu'r ffaith bod cerddoriaeth yn rhywbeth i bawb, ac y gallwch chi greu cerddoriaeth o unrhyw beth.

Prynodd ein cynorthwyydd dysgu bibellau plastig eithaf tenau o siop nwyddau cartref gan ofyn iddyn nhw eu torri nhw'n wyth darn o wahanol hyd, gyda'r darn mwyaf tua thair troedfedd o hyd. Roedd hyn yn golygu eu bod nhw'n creu sŵn ag amrywiol amleddau wrth gael eu taro'n ysgafn ar lawr yr ystafell ddosbarth.

Trwy labelu pob darn o bibell o 1–8 o'r traw isaf i'r uchaf, roedd yn bosib i bob plentyn cynrychioli pob nodyn ar raddfa safonol. Eisteddodd y dosbarth cyfan mewn cylch, a chafodd pob plentyn gyfle i fod yn gyfrifol am o leiaf un 'nodyn' yr un yn ystod y sesiwn. Cawson ni bleser mawr yn canfod y cysylltiad rhwng hyd y bibell a thraw'r nodyn.

Roedd pawb yn gynwysedig yn y sesiwn darganfod cerddorol hon. Erbyn diwedd y sesiwn roedden ni i gyd yn medru chwarae hwiangerddi syml adnabyddus ynghyd â rhai arwydd-ganeuon teledu. Roedd y plant hefyd wedi gallu creu alawon eu hun.

# Symud creadigol

**Dylai'r profiadau symud creadigol fod yn gyffrous, yn bleserus ac yn hwyl.**

Mae symud creadigol yn ymwneud ag ymatebion personol plant, gan gynnwys chwarae rôl a chwarae dychmygus byd bach, i ysgogiad fel stori, cerdd, darn o gerddoriaeth, arteffactau neu luniau.

Wrth i sgiliau corfforol plant ddatblygu ac wrth iddyn nhw feithrin rheolaeth gynyddol dros eu symudiadau gallan nhw gael eu hannog i ddefnyddio symudiadau'r corff yn fynegiannol/creadigol i gyfleu rhythmau, awyrgylch neu deimladau a gaiff eu cyfleu gan gerddoriaeth.

- Gall symud atgyfnerthu syniadau ym mhob Maes Dysgu oherwydd yn aml mae angen i blant symud er mwyn dysgu.
- Mae lle priodol yn hanfodol ar gyfer symud creadigol fel y gall plant ddefnyddio eu cyrff i feithrin ymwybyddiaeth o le ac arbrofi â symud heb wynebu anawsterau o ran diffyg lle.
- Gall cyfleoedd i chwarae'n ddychmygus ag adnoddau addas gynnig cyfleoedd i blant actio rolau sy'n cynnwys symudiadau.
- Wrth iddyn nhw wneud cynnydd bydd plant yn ymateb i straeon ag ystumiau priodol ar adegau perthnasol a byddan nhw'n mwynhau eu hail-greu, weithiau gan ddefnyddio ychydig o 'bropiau' neu meim ac ystumiau i fynegi syniadau.
- Dylid cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau teithio, neidio, cydbwyso, troi, ystumio ac aros yn llonydd, a chyfleoedd i blant greu eu patrymau symud eu hunain sy'n cyfuno rhai o'r gweithredoedd hyn.
- Dylai plant gael cyfleoedd i ddyfeisio eu dilyniannau eu hunain gan ddefnyddio cyfarpar syml dan do ac yn yr awyr agored.
- Pan fyddan nhw'n gallu cydweithio mewn parau a grwpiau bach, gall plant weithio gyda'i gilydd i greu dawns syml mewn ymateb i gerddoriaeth a pherfformio dawnsfeydd traddodiadol o Gymru a gwledydd a diwylliannau eraill.
- Dylai'r profiadau symud creadigol fod yn gyffrous, yn bleserus ac yn hwyl.
- Wrth i sgiliau hunanwerthuso plant ddatblygu gallan nhw gofnodi a gwerthuso eu symudiadau creadigol nhw a symudiadau pobl eraill, drwy amrywiaeth o gyfryngau gan gynnwys TGCh.

Mae'r astudiaeth achos hon yn defnyddio stori fel ysgogiad ar gyfer sesiwn symud.



## Dinosoriaid ydyn ni

Un o hoff straeon ein dosbarth yw'r stori am deulu o ddinosoriaid cyfeillgar. Penderfynon ni fanteisio ar hyn drwy ei defnyddio fel rhan o'n sesiynau 'symud' chwarae rôl.

Mae pob tudalen o'r stori yn cynnwys gwahanol ddinosor â'i ffordd unigryw o symud. Wrth eistedd mewn cylch, y syniad oedd ein bod yn dynwared y disgrifiadau fel ffordd o ddod â'r geiriau'n fyw a'u troi'n symudiadau corfforol. Mae'r un cyntaf yn un mawr trwm ar bedwar coes, felly gwnaethon ni siglo ac ysgwyd a chodi ein coesau i fyny ac yna i lawr yn galed.

Dysgodd pob un ohonon ni ddawns i'w pherfformio gan ddefnyddio'r holl siapiau roedden ni wedi eu gwneud gyda'n cyrff. Gwnaethon ni stompio o amgylch yr ystafell fel stegosoriaid, gan godi ein pengliniau'n uchel i wneud synau stompio uchel.



Ar gyfer pterodactyliaid roedden ni wedi dysgu ymestyn ein breichiau i wneud adenydd anferth, ac yna eu lapio o amgylch ein cyrff. Aeth y bachgen hwn ymlaen i ymarfer nes iddo greu'r siâp perffaith.



Dyma rai dinosoriaid anferth – ymestynnodd y bechgyn eu breichiau i greu gên anferth y tyranosor, ac yna cau eu breichiau'n dynn. Gyda'u bysedd gwnaethon nhw grafangau mawr neu ddannedd miniog.

**Yn dilyn ymweliad plentyn i'r pantomeim, penderfynodd un dosbarth Blwyddyn 2 greu eu pantomeim eu hunain ar gyfer gweddill yr ysgol.**

## Y pantomeim cerddorol

Un dydd ym mis Ionawr, roedd Tom yn adrodd hanes ei daith i'r pantomeim i weddill fy nosbarth Blwyddyn 2 yn llawn cyffro. "Roedd yn ddoniol iawn," meddai, "roedd gwraig y cawr yn gwneud crempog. Bob tro roedd hi'n trio dal crempog yn y badell ffrio roedd yn disgyn i'r llawr ac yn gwneud sŵn fel drwm mawr. Pan oedd y cawr yn trio dringo i lawr y goeden ffa dechreuodd ei goesau wichian fel hen ddrws gwichlyd." Chwarddodd y plant i gyd. Rhedodd Courtney i gornel y gegin a cheisio fflipio moronen blastig yn y badell ffrio. Pan syrthiodd y foronen i'r llawr gwnaeth rhai o'r plant sŵn uchel fel drwm. Cyn hir roedd sawl un o'r plant wedi ymuno yn yr hwyl – chwythodd rhai ohonyn nhw chwibanau pan hedfanodd y foronen i'r awyr a tharodd eraill y drymiau pan ddisgynnodd i'r llawr. Achosodd y gweithgaredd hwn lawer o chwerthin ac roedd y plant i gyd yn mwynhau'r profiad.

Yna dywedodd un plentyn "Gallen ni wneud pantomeim ar gyfer gweddill yr ysgol." (Bob mis Gorffennaf mae'r plant ym Mlwyddyn 2 naill ai'n gwneud rhywbeth arbennig neu'n perfformio cyngerdd i'r plant iau.) Roedd hyn yn awgrym mor boblogaidd nes i'r plant ddechrau gweithio ar greu eu pantomeim eu hunain.

Dros yr ychydig wythnosau nesaf parhaodd y plant i baratoi ar gyfer eu pantomeim. Gwnaethon nhw ysgrifennu eu stori eu hunain, gwneud mygydau a chynffonnau ar gyfer cymeriadau'r anifeiliaid a gwneud eu hofferynnau cerdd eu hunain o boteli, jariau a reis. Gwnaethon nhw hefyd ddawns gyda chamau cyflym ar gyfer anifeiliaid bach a chamau arafach ar gyfer anifeiliaid mawr, trwsgl. Yna gwnaethon nhw wrthdroi'r rolau fel bod yr anifeiliaid bach yn cymryd camau arafach a'r anifeiliaid mawr yn dawnsio'n gyflym.

Ar ôl sawl wythnos o ddewis pwy fyddai'n chwarae pob cymeriad a phwy fyddai yn y gerddorfa, fe ddaeth y diwrnod mawr. Roedd y pantomeim yn ardderchog. Cafodd pawb – y cast a'r gynulleidfa – amser gwych. Mae plant Blwyddyn 2 eleni wedi penderfynu'n barod eu bod nhw am wneud pantomeim, a dim ond mis Medi yw hi!



# Cynllunio

Mae'r enghraifft ganlynol o gynllun wythnos yn rhan o'r cynllun tymhorol ar draws saith Maes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer y thema 'Dydd a nos'.

**Gweithgareddau**

- Ymchwilio i adlewyrchiadau – gan ddefnyddio'r 'bag sgleiniog' fel ysgogiad wrth chwilio am ein hadlewyrchiadau.
- Ystyried dillad adlewyrchol mewn perthynas â diogelwch ar y ffyrdd.
- Chwilio am ein cysgodion – cysgodion y corff cyfan a silwetau'r pen. Gwneud pypedau cysgod.

**Datblygiad Creadigol**

- Gwneud gludwaith sgleiniog (2-D/3-D) gyda'r rhyddid i ddewis o amrywiaeth o bethau sgleiniog.
- Gwneud pyped cysgod (gan ddefnyddio uwchdaflunydd fel ffynhonnell olau) gyda'r rhyddid i ddewis defnyddiau.
- Silwetau pen ac ysgwydd – papur siwgr du ar gefndir dewisol y plentyn.
- Cyfansoddi gan ddefnyddio offerynnau'r 'haul' a'r 'lleuad'.

**Gwerthuso (ar draws pob Maes Dysgu) a cham nesaf y gweithgareddau**

- Roedd yr ymarfer chwarae rôl diogelwch ar y ffyrdd yn llwyddiannus iawn – gwnaethon ni newid y cynllunio er mwyn i ni allu parhau drwy'r bore. Llawer eisoes gyda sgiliau Rheolau'r Groes Werdd ond rhai yn wael iawn.
- Delweddau cyfrifiadurol cymesur – ardderchog. Ni all rhai nodi llinell cymesuredd o hyd.

| | |
|---|---|
| **Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol**<br>Trafod diogelwch ar y ffyrdd. Sut rydyn ni'n croesi ffordd yn ddiogel? (Pwy sy'n gyfarwydd â Rheolau'r Groes Werdd yn barod?)<br>Pam ei bod yn bwysig i ni gael ein gweld gyda'r nos? Trafodwch rolau oedolion hefyd.<br>Gwrando ar stori Rama a Sita. Gwneud ein pypedau cysgod ein hunain i ailadrodd y stori.<br>Thema gwasanaeth babanod – 'Pethau gwerthfawr'. | **Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**<br>Trafod ein pethau sgleiniog o gartref. Gwrando ar ein gilydd wrth i ni ddisgrifio ein 'geiriau sgleiniog' ar y wal.<br>'Dangos a dweud' (dau grŵp Dydd Mawrth/Dydd Iau).<br>Ysgrifennu ymddangosol yn seiliedig ar ein llyfr dosbarth. |
| **Datblygiad Mathemategol**<br>Cymesuredd. Gwneud patrymau cymesur ar raddfa fawr fel dosbarth (dan do). Grwpiau'n rhannu i weithio ar batrymau ar raddfa fawr yn yr awyr agored gyda siapiau carped a rhaff sgipio fel y llinell cymesuredd. Parau'n gweithio dan do gyda chiwbiau bach sy'n cysylltu i wneud siâp cymesur i ffrind ei gopïo. Gwaith unigol i greu patrwm cymesur eu hunain. | **Datblygu'r Gymraeg**<br>Teganau – Lliwiau. Pa liw ydy'r trên?<br>Ga' i... os gwelwch yn dda.<br>Rhifau 1–10 |
| **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**<br>Pa liw sydd orau i'w wisgo yn y tywyllwch? Defnyddio ein bocsys sgidiau i ganfod pa liw sydd orau i'w wisgo gyda'r nos pan fyddwch chi'n cerdded yn ddiogel ar y palmant. (Ysgogiad: fideo diogelwch ar y ffyrdd.)<br>Trafod ein hadlewyrchiadau – sut rydyn ni'n gweld ein hunain? Siarad yn gadarnhaol amdanon ni ein hunain a'n hadlewyrchiadau. | **Datblygiad Corfforol**<br>Chwarae rôl sefyllfa yn cynnwys plant ar gefn beiciau yn esgus bod yn geir ar y ffordd. Plant i wisgo i fyny fel person lolipop yn eu tro. Bocsys cardbord fel ceir yr heddlu.<br>Gwers Datblygiad Corfforol arwahanol (Gêm bagiau ffa) i atgyfnerthu 'Rhifau 1–10'. Sgiliau pêl syml.<br>Chwarae rhydd gyda beiciau, teiars a chylchoedd. |

# Cynnydd mewn dysgu

**Wrth iddyn nhw wneud cynnydd o ran eu Datblygiad Creadigol dylai plant ddysgu sut i fyfyrio ar eu gwaith a chynllunio sut i'w wella.**

Dylai cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol drwy gydol y Cyfnod Sylfaen ddatblygu creadigrwydd, dychymyg, mynegiant a chwilfrydedd plant. Dylen nhw archwilio ystod eang o ysgogiadau a defnyddio amrywiaeth o adnoddau i ddatblygu eu gallu i gyfathrebu a mynegi eu syniadau. Wrth iddyn nhw wneud cynnydd o ran eu Datblygiad Creadigol dylai plant ddysgu sut i fyfyrio ar eu gwaith a chynllunio sut i'w wella. Bydd plant yn cyflawni'r elfennau amrywiol ar draws y continwwm dysgu pan fyddan nhw'n barod yn ddatblygiadol.

## Celf, crefft a dylunio

Bydd cymryd rhan mewn gweithgareddau celf, crefft a dylunio yn gofyn i'r plant fod yn greadigol, yn ddychmygus a delio ag amrywiaeth o ddefnyddiau drwy gydol y Cyfnod Sylfaen. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud cynnydd o ran eu gallu i:



- archwilio amrywiaeth o dechnegau a defnyddiau ac arbrofi â nhw
- gwneud dewisiadau wrth ddewis defnyddiau ac adnoddau
- cymysgu, siapio, trefnu a chyfuno defnyddiau er mwyn creu eu delweddau a'u gwrthrychau eu hunain sy'n cyfleu ac yn mynegi eu syniadau, eu teimladau a'u hatgofion mewn modd creadigol
- datblygu a defnyddio eu dealltwriaeth o liwiau, llinellau, tôn, gwead, patrwm, siâp a ffurf
- datblygu eu dealltwriaeth o gynllunio, dylunio, modelu, addasu a myfyrio
- defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau ac offer i arbrofi a datrys problemau
- dylunio a gwneud cynnyrch a mecanweithiau syml
- myfyrio ynghylch eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill.

## Cerddoriaeth

Bydd cymryd rhan mewn gweithgareddau canu, chwarae, creu a gwrando ar gerddoriaeth yn gofyn i'r plant ymateb i amrywiaeth o ffynonellau sain, gweithio gydag eraill a meddwl yn greadigol drwy gydol y Cyfnod Sylfaen. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud cynnydd o ran eu gallu i:

- archwilio ystod o ffynonellau sain ac arbrofi â gwahanol ffyrdd o gynhyrchu a threfnu seiniau
- creu eu syniadau cerddorol eu hunain a chyfrannu i gyfansoddiadau syml
- canu ystod o ganeuon gydag eraill
- chwarae patrymau rhythmig a melodig syml ar amrywiaeth o offerynnau
- adnabod a disgrifio seiniau, a gwrando ar gerddoriaeth ac ymateb iddi
- myfyrio ynghylch eu cerddoriaeth eu hunain a cherddoriaeth pobl eraill
- datblygu rheolaeth gynyddol ar yr elfennau cerddorol wrth greu cerddoriaeth
- gwahaniaethu'n fras rhwng yr elfennau cerddorol wrth wrando ar gerddoriaeth.

## Symud creadigol

Bydd cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rôl, drama a dawns yn gofyn i'r plant symud, gweithio gydag eraill, esgus, addasu'n fyrfyfyr a meddwl yn greadigol drwy gydol y Cyfnod Sylfaen. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud cynnydd o ran eu gallu i:

- archwilio a mynegi ystod o hwyliau a theimladau trwy gyfrwng amrywiaeth o symudiadau
- datblygu eu hymatebion i wahanol symbyliadau megis cerddoriaeth, lluniau, geiriau a syniadau
- datblygu eu rheolaeth trwy gysylltu symudiadau er mwyn creu cyfres o wahanol lwybrau a siapiau â'u cyrff
- gweithio ar eu pen eu hunain a gydag eraill i esgus, ymateb yn fyrfyfyr a meddwl yn ddychmygus
- gweithio ar eu pen eu hunain, gyda phartner neu mewn grŵp bach i ddatblygu eu syniadau eu hunain a syniadau pobl eraill, a'u helpu i fyfyrio ynghylch y syniadau hynny
- perfformio symudiadau neu batrymau, gan gynnwys rhai sy'n perthyn i ddawnsiau gwerin Cymreig a dawnsiau o ddiwylliannau eraill.

# Datblygiad Creadigol ar draws y cwricwlwm

Er mwyn darparu'n effeithiol ar gyfer Datblygiad Creadigol, mae angen cynllunio gofalus ar draws pob Maes Dysgu i sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu, cymhwyso ac ymestyn eu syniadau creadigol mewn gwahanol gyfryngau, gan gynnwys TGCh, ac i ddefnyddio offer yn ddiogel gan fod yn ymwybodol o berygl. Mae yna lawer o gyfleoedd i blant feithrin sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn y Meysydd Dysgu eraill ac o fewn y gwahanol feysydd addysgu yn y lleoliad/ysgol. Er enghraifft, fe allai'r plant:

### Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

- ddefnyddio gwahanol fathau o gerddoriaeth i fynegi emosiynau a theimladau a'u trafod
- defnyddio cyfrwng a dull o'u dewis i gynrychioli/cofnodi bwydydd iach/a'r rhai sydd ddim yn iach yn unigol, mewn parau neu grwpiau bach

### Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

- siarad, trafod, gwrando, cofnodi (ar ffurf lluniau a darnau ysgrifenedig pan fyddan nhw'n barod yn ddatblygiadol) am eu gwaith nhw a gwaith pobl eraill mewn celf a cherddoriaeth
- defnyddio geiriau disgrifiadol i ymateb i luniau, geiriau ac amrywiaeth o wahanol ysgogiadau

### Datblygiad Mathemategol

- defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i arbrofi gyda siâp (3-D a 2-D), gofod a phatrwm
- defnyddio eu cyrff mewn gweithgareddau drama a dawns i ddangos iaith fathemategol o ran lleoliad

**Datblygu'r Gymraeg**

- defnyddio geiriau Cymraeg i ddisgrifio gwaith arlunwyr a cherddorion
- defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i gynrychioli arteffactau o Gymru

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

- archwilio ac ymchwilio'n greadigol i bethau byw a phethau nad ydyn nhw'n fyw dan do ac yn yr awyr agored ac i gynrychioli'r rhain yn eu ffordd greadigol nhw eu hunain
- trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau a chyfryngau gael cyfleoedd i gynrychioli llwybrau/mapiau o'u hamgylchedd cyfagos gan ddatblygu o hynny i gynnwys symbolau ysgrifenedig

**Datblygiad Corfforol**

- defnyddio eu cyrff i fynegi eu hunain wrth ymateb i amrywiaeth o synau a cherddoriaeth
- defnyddio bocsys mawr/cratiau ac adnoddau i greu ardaloedd chwarae dychmygus dan do ac yn yr awyr agored sy'n cefnogi datblygiad eu sgiliau echddygol bras.



# Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol

*All Our Futures: Creativity, Culture and Education* gan y National Advisory Council on Creative and Cultural Education (DfEE Publications, 1999) ISBN: 9781841850344

*Art 4–11: Art in the early years of schooling* gan M Morgan (Nelson Thornes Ltd, 1995) ISBN: 9780748723119

*Bingo Lingo: Supporting language development with songs and rhymes* gan H MacGregor, P Bailey a K Umansky (A&C Black Publishers Ltd, 1999) ISBN: 9780713650754

*Cana i Mi Stori/Sing Me a Story* gan B Flanagan (Curiad, 2002) ISBN: 9781897664582

*Caneuon Gwerin Cymru/Folk Songs of Wales* gan E O Jones (Curiad) ISBN: 9781897664858

*Cerddtastic! Cyflwyniad i gerddoriaeth Cymru* gan G Thomas a C Hall (Y Lolfa, 2005) ISBN: 9780862437633

*Jingle Time: Rhymes and songs for early years learning* gan M Carter a C Macintyre (David Fulton Publishers Ltd, 2003) ISBN: 9781843120278

*Outdoor Play in the Early Years* gan H Bilton (David Fulton Publishers Ltd, 2002) ISBN: 9781853469527

*Planning Play and the Early Years* gan P Tassoni (Heinemann Educational Publishers, 2005) ISBN: 9780435401191

*Supporting Creativity and Imagination in the Early Years* gan B Duffy (Open University Press, 2008) ISBN: 9780335218592

*Supporting Musical Development in the Early Years* gan L Pound a C Harrison (Open University Press, 2002) ISBN: 9780335212248

*Taro Nodyn* gan B Flanagan (Curiad, 1998) ISBN: 9781897664667

*The Great Outdoors: developing children's learning through outdoor provision* gan M Edgington (British Association for Early Childhood Education, 2002) ISBN: 9780904187281

*The Little Hands Big Fun Craft Book: Creative Fun with 2 to 6 Year Olds* gan L T Braren a J Press (Williamson Publishing Co, 1996) ISBN: 9780913589960

Cyngor Celfyddydau Cymru, 9 Stryd yr Amgueddfa,
Caerdydd CF10 3NX
Ffôn: 029 2037 6500
www.artswales.org.uk

The British Association for Early Childhood Education
136 Cavell Street, Llundain E1 2JA
Ffôn: 020 7539 5400
www.early-education.org.uk

Re-create, Ystad Ddiwydiannol Pont Trelái, Wroughton Place,
Caerdydd CF5 4AB
Ffôn: 029 2057 8100
Siop sborion o ddefnyddiau y gellir eu hailddefnyddio o'r diwydiant; cyflenwadau celf a chrefft am brisiau gostyngol, ynghyd â llyfrau a thaflenni syniadau.
www.re-create.co.uk

Trash, Uned 30, Ystad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinmel,
Conwy LL18 5JB
Ffôn: 01745 369216
Ffacs: 01745 369225
Canolfan adnoddau disgownt Gogledd Cymru.

Canolfan Gelf Wrecsam, Ffordd Rhosddu, Wrecsam LL11 1AU
Ffôn: 01978 292093
Ffacs: 01978 292611
www.wrexham.gov.uk/welsh/community_w/arts_centre/arts_index.htm

Cyn defnyddio unrhyw wefan gyda phlant mae’n hanfodol bod yr ymarferydd yn mynd i’r wefan ymlaen llaw. Dylai wneud hyn i sicrhau bod yr wybodaeth/deunydd y mae’n bwriadu eu defnyddio yn:

- ategu dysgu’r plant
- perthnasol i’r gwaith a gaiff ei archwilio
- priodol i’r plant.

Mae *Early Childhood Research and Practice* (ECRP) yn gyfnodolyn electronig sy’n cwmpasu pynciau sy’n ymwneud â datblygiad, gofal ac addysg plant o’u genedigaeth i wyth oed.

www.ecrp.uiuc.edu

Mae gwefan gydweithredol Early Childhood and Parenting (ECAP) yn lleoliad i fwy na dwsin o brosiectau sy’n canolbwyntio ar addysgu a magu plant ifanc. Mae ECAP yn lleoliad i waith ymchwil, cymorth technegol, a phrosiectau gwasanaeth, ac mae ei ysgrifenwyr a’i olygyddion profiadol yn ymateb i gwestiynau sy’n ymwneud yn benodol â’r cynnwys, gan baratoi cyhoeddiadau yn ogystal â darparu hyfforddiant a chyflwyniadau.

ecap.crc.uiuc.edu/

Early Education yw’r sefydliad gwirfoddol cenedlaethol ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a rhieni. Mae’n hyrwyddo hawl pob plentyn i gael addysg o’r safon orau, ac yn cynnig cymorth, cyngor a gwybodaeth am arfer gorau i bawb sy’n ymwneud ag addysg a gofal plant ifanc o’u genedigaeth i wyth oed.

www.early-education.org.uk



# Geirfa'r Cyfnod Sylfaen

**Addysgeg**
Mae addysgeg yn cyfeirio at y berthynas rhwng dysgu ac addysgu. Mae'n cynnwys y cysyniad o'r ymarferydd fel hwylusydd dysgu, gan ymateb i anghenion unigolion, parodrwydd i ddysgu ochr yn ochr â'r plant, defnyddio dulliau priodol i reoli'r broses ddysgu a myfyrio'n barhaus ar arfer a'i gwella.

**Amrywiaeth ddiwylliannol**
Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, yn dathlu gwahanol ddiwylliannau ac yn helpu plant i adnabod a chael ymwybyddiaeth gadarnhaol o'u diwylliant nhw eu hunain a diwylliant pobl eraill. Dylid datblygu agweddau cadarnhaol er mwyn cynnig modd i blant fod yn fwy ymwybodol o werth yr amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru, a'u gwerthfawrogi.

**Annibyniaeth**
Mae annibyniaeth yn cyfeirio at gael y gallu a'r sgìl i fod yn llai dibynnol ar eraill. Dylai sgiliau rheoli ac ymdopi gael eu datblygu'n raddol trwy'r Cyfnod Sylfaen.

**Asesu statudol**
O fewn y Cyfnod Sylfaen mae dau asesiad statudol y mae'n rhaid eu cyflawni: asesu sylfaenol ac asesiad statudol athrawon diwedd cyfnod.

**Cof**
Y cof yw rhan o'r ymennydd lle mae gwybodaeth yn cael ei chasglu, ei chadw a'i hadalw yn ddiweddarach. I gychwyn rhaid cymryd gwybodaeth a'i deall; yna caiff ei chadw a'i hadalw pan fydd ei hangen. Mae angen pob un o'r prosesau hyn er mwyn i ddysgu ddigwydd.

**Cwricwlwm**
Mae saith Maes Dysgu wedi cael eu nodi i ddisgrifio cwricwlwm priodol ar gyfer plant 3 i 7 oed sy'n cefnogi datblygiad plant a'u sgiliau. Maen nhw'n ategu ei gilydd ac yn cydweithio i ddarparu cwricwlwm sy'n gyfannol. Mae'r cynnwys (sgiliau ac ystod) addysg statudol y mae angen ei ddilyn i'w gweld ym mhob Maes Dysgu.

**Cwricwlwm cyfannol**
Mae'r cwricwlwm cyfannol yn gwricwlwm lle mae Meysydd Dysgu wedi'u cydgysylltu ac mae dysgu ac addysgu yn cynnal sawl agwedd

ar ddatblygiad y plentyn yn hytrach na chanolbwyntio ar un cyfnod neu angen penodol. Mae'r cwricwlwm yn cael ei ystyried a'i gyflwyno fel un cwricwlwm.

**Cwricwlwm Cymreig**
Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy ddatblygu dealltwriaeth plant o'r hunaniaeth ddiwylliannol sy'n unigryw i Gymru ar draws pob Maes Dysgu trwy ymagwedd integredig. Dylai plant werthfawrogi'r gwahanol ieithoedd, delweddau, gwrthrychau, seiniau a blasau sy'n rhan annatod o Gymru heddiw, a chael syniad o berthyn i Gymru, a deall treftadaeth, llenyddiaeth a chelfyddydau Cymru yn ogystal â'r iaith.

**Cyfathrebu/datblygu iaith**
Mae iaith yn gyfuniad o wahanol ffurfiau a sgiliau sy'n cynnwys siarad a gwrando, darllen, ysgrifennu, meddwl ac arsylwi. Mae tôn y llais yn ffurf bwerus o gyfleu ystyr. Gall rhai plant ddefnyddio systemau eraill heblaw'r llais, megis arwyddo.

Mae gwahanol fathau o gyfathrebu di-eiriau hefyd, megis mynegiant yr wyneb (gwenu), ystumiau/symudiadau'r corff (ysgwyddau yn gwargrymu a chysylltiad â'r llygad).

**Chwarae addysgol strwythuredig**
Mae deilliannau wedi'u cynllunio'n benodol yn deillio o brofiadau chwarae strwythuredig i estyn dysgu, sgiliau a datblygiad plant. Dylai chwarae strwythuredig gael ei gynllunio mewn ffordd hyblyg er mwyn caniatáu i blant gael cyfleoedd i ddewis ac ehangu'r gweithgaredd yn ôl eu diddordebau a'u gwybodaeth.

**Chwarae ar eu pennau eu hunain**
Mae plant yn chwarae'n hapus ar eu pennau eu hunain. Byddan nhw'n ymwneud â'u chwarae eu hunain ac yn symud o weithgaredd i weithgaredd heb ystyried unrhyw blant eraill. Yn aml yn y cyfnod chwarae hwn bydd plant yn mwynhau efelychu gweithgareddau bob dydd.

**Chwarae cydweithredol/grŵp**
Pan fydd plant yn dechrau chwarae gyda'i gilydd, byddan nhw'n rhannu eu chwarae. Daw plant yn fwy cymdeithasol, byddan nhw'n derbyn rolau yn y chwarae ac yn ystyried rolau plant eraill. Maen nhw'n dechrau dod yn ymwybodol o anghenion a dymuniadau eu cyfoedion, ac felly yn raddol bydd y chwarae yn dod yn fwy cymhleth. Weithiau byddan nhw'n dyfeisio rheolau, a byddan nhw'n mynd yn ôl at y chwarae cydweithredol dros sawl diwrnod.

**Chwarae paralel**
Gall ymddangos fod plant yn chwarae gyda'i gilydd ond trwy arsylwi'n fwy manwl gwelir bod y plant yn chwarae ar eu pennau eu hunain ac nid yn rhyngweithio â'i gilydd. Gall plant fod yn defnyddio'r un cyfarpar neu'n eistedd neu'n sefyll nesaf at ei gilydd, ond eto yn gweithio'n annibynnol ar ei gilydd; nid oes unrhyw ryngweithio cadarnhaol na negyddol rhyngddyn nhw yn eu chwarae.

**Dan arweiniad ymarferydd/oedolyn**
Mae angen i ymarferwyr gynllunio cwricwlwm priodol sy'n cadw diddordeb plant yn eu dysgu. Mae angen iddyn nhw annog, cymell a datblygu agweddau. Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o bryd y mae'n briodol i ymyrryd yn sensitif i estyn dysgu'r plant, herio'u sgiliau datrys problemau a'u sgiliau meddwl, a phryd i ganiatáu i'r plant gyrraedd diweddglo boddhaol ar eu pennau eu hunain. Dylai ymarferwyr gefnogi/cynnal dysgu'r plant, trwy arsylwi, monitro ac asesu dilyniant plant er mwyn sicrhau eu bod yn symud ymlaen i gyfnodau nesaf eu datblygiad a bod eu sgiliau yn cael eu hestyn.

**Datblygiad corfforol**
Mae datblygiad corfforol yn canolbwyntio ar gynyddu sgiliau a pherfformiad y corff. Mae cysylltiad agos rhwng datblygiad corfforol a gwybyddol, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar. Gellir rhannu datblygiad corfforol yn sgiliau echddygol bras a sgiliau llawdrin manwl.

**Datblygiad cymdeithasol**
Mae datblygiad cymdeithasol yn canolbwyntio ar ryngweithiadau cymdeithasol plant a'u perthynas â'u cyfoedion, ymarferwyr ac oedolion.

**Datblygiad gwybyddol**
Ystyr datblygiad gwybyddol yw datblygu'r meddwl. Mae'n canolbwyntio ar feddwl a dealltwriaeth, dychymyg a chreadigrwydd y plentyn (gan gynnwys datrys problemau/rhesymu/canolbwyntio a chof).

**Datblygiad personol**
Mae datblygiad personol yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth plant o'u hunain a datblygu eu sgiliau hunangymorth.

**Datrys problemau**
Mae datrys problemau yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gallu i asesu problem/sefyllfa yna casglu gwybodaeth a chael hyd i ateb. Pan fydd sgiliau'r plant yn cynyddu byddan nhw'n gallu tynnu ar brofiadau blaenorol wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd a datrys problemau.

**Deilliannau**
Mae Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys graddfeydd a disgrifiadau asesu sylfaenol a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Cawsant eu datblygu i ategu asesiad statudol athrawon diwedd cyfnod. Mae chwe Deilliant gan bob Maes Dysgu ac at ddibenion gwybodaeth mae Deilliannau 4–6 yn croesgyfeirio'n fras i'r disgrifiadau cyfredol am Lefelau 1–3.

**Dulliau dysgu**
Mae gwahanol ddulliau dysgu neu ddulliau rhyngweithio o ddewis. Y dulliau dysgu yw: gweledol, clybodol a chinesthetig. Pan fydd dulliau dysgu yn cael eu hystyried gellir gwella dysgu. Bydd rhai plant yn dysgu orau os oes ysgogiad gweledol ganddyn nhw, ond bydd eraill yn dysgu orau trwy ysgogiad clybodol neu dasg ginesthetig (ymarferol). Mae ymchwil i ddatblygiad yr ymennydd wedi dangos bod dulliau dysgu unigol yn cael eu heffeithio gan yr amgylchedd, y math o weithgaredd dysgu a gweithio'n annibynnol neu mewn grŵp.

**Dychymyg**
Ystyr dychymyg yw cael y sgiliau a'r gallu i ffurfio delweddau, syniadau a chysyniadau sydd naill ai'n bodoli ond nid ydyn nhw'n bresennol neu nad ydyn nhw'n bodoli o gwbl.

**Dysgu gweithredol**
Mae'r term hwn yn cyfeirio at blant yn dysgu'n weithredol ac yn cael rhan yn eu dysgu. Mae plant yn dysgu orau trwy brofiadau uniongyrchol. Mae'n hanfodol bod plant yn cael profiadau gweithredol dan do ac yn yr awyr agored sy'n meithrin eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac a fydd yn cynnal eu dysgu yn y dyfodol.

Pwrpas chwarae/dysgu gweithredol yw ei fod yn cymell, yn ysgogi ac yn cynnal plant wrth iddyn nhw ddatblygu sgiliau, cysyniadau, caffael iaith/sgiliau cyfathrebu a chanolbwyntio. Hefyd, mae'n rhoi cyfle i blant ddatblygu agweddau cadarnhaol a dangos ymwybyddiaeth/defnydd o ddysgu diweddar, sgiliau a chymwyseddau, ac mae'n cyfnerthu dysgu.

**Dysgu yn yr awyr agored**
Mae pwyslais cryf ar ddysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored fod yn estyniad i'r amgylchedd dan do. Dylid cynllunio gweithgareddau strwythuredig yn seiliedig ar brofiad ar gyfer y diwrnod cyfan a chyn belled ag y bo modd, dylai plant gael symud yn rhwydd rhwng y tu mewn a'r tu allan (gan gadw mewn cof faterion iechyd a diogelwch).

**Fframwaith sgiliau**
Mae'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer plant 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol yn disgrifio dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

**Gwahaniaethu**
Dylai'r cwricwlwm fod yn hyblyg er mwyn cyfateb â galluoedd, sgiliau ac anghenion datblygiadol plant.

**Gwylio chwarae**
Bydd plant yn arsylwi ar blant eraill ond nid ydyn nhw'n ymuno. Byddan nhw'n hoffi gwylio plant eraill yn chwarae. Yn aml gellir eu gweld yn sefyll/eistedd ar ymylon y mannau lle mae'r plant eraill yn chwarae. Er y gall ymddangos eu bod yn unig neu'n ddihyder, yn aml gallan nhw fod yn canolbwyntio tra eu bod yn arsylwi ar y chwarae er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd i'w wneud.

**Hunan-barch**
Mae hyn yn cyfeirio at y ffordd y mae plant yn teimlo amdanyn nhw eu hunain. Mae teimladau cadarnhaol yn dynodi hunan-barch uchel a theimladau negyddol yn dynodi hunan-barch isel.

**Lles emosiynol**
Mae datblygiad emosiynol yn canolbwyntio ar ddatblygu hunan-barch plant, eu teimladau a'u hymwybyddiaeth o deimladau eraill.

**Partneriaeth/chwarae cysylltiadol**
Bydd plant sy'n gweithio yn y cyfnod partneriaeth/chwarae cysylltiadol yn dechrau dod yn ymwybodol o blant eraill. Byddan nhw'n dechrau cyfathrebu â'i gilydd ac yn fwy ymwybodol o'r chwarae/gemau y mae'r plant eraill yn cymryd rhan ynddyn nhw. Maen nhw'n dechrau esbonio i'w gilydd beth maen nhw'n ei wneud. Yn raddol bydd un plentyn yn dechrau ymwneud â chwarae'r llall.

**Proffil asesu**
Mae'r proffil asesu yn cynnig arweiniad ar gyfnodau datblygu allweddol plant a'r sgiliau y gall plant eu datblygu a'u caffael o tua 18 mis i 84 mis.

**Sgiliau echddygol bras**
Mae datblygiad sgiliau echddygol bras yn dechrau gyda'r baban ifanc yn rheoli symudiadau'r pen ac yna'n, symud i lawr y corff, rheoli rhannau eraill o'r corff. Mae datblygiad echddygol bras yn cynnwys defnyddio symudiadau'r corff cyfan, cydsymud a chydbwysedd.

**Sgiliau llawdrin manwl**
Mae datblygu sgiliau llawdrin manwl/echddygol plant yn dechrau yng nghanol eu cyrff ac yn symud allan. Trwy ddatblygiad priodol, bydd plant yn gallu cyflawni symudiadau manwl a chymhleth. Mae sgiliau llawdrin manwl yn cynnwys defnyddio symudiadau'r bysedd a chydsymud llaw–llygad.

**Wedi'u cychwyn gan blant/canolbwyntio ar blant**
Dylai cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ganolbwyntio mwy ar ddiddordebau, datblygiad a dysgu plant yn hytrach na'r cwricwlwm a deilliannau rhagderfynedig. Mae'n bwysig nodi bod rhaid i'r cwricwlwm a gynlluniwyd gael strwythur ac amcanion dysgu clir ond bod yn ddigon hyblyg i alluogi plant i ddilyn eu diddordebau a diwallu eu hanghenion.

Dylai arsylwi'n ofalus ar y cwricwlwm a gynlluniwyd a sut mae'r plant yn ymateb iddo ddarparu tystiolaeth i ddangos a yw'r plant yn canolbwyntio ar eu dysgu ac nid yn chwarae'n ddibwrpas. Mae dealltwriaeth o ddatblygiad y plentyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu hestyn yn eu dysgu.

**Ymarferwyr**
Mae'r term generig hwn yn cyfeirio at yr oedolion sy'n gweithio gyda phlant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'n cynnwys athrawon a chynorthwywyr ystafell ddosbarth yn y sector a gynhelir, a staff sy'n gweithio yn y lleoliadau addysg a ariennir yn y sector nas cynhelir.

# Cydnabyddiaethau

Hoffai Is-adran Cwricwlwm ac Asesu yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r holl blant, ymarferwyr, rhieni, gofalwyr, lleoliadau, ysgolion a sefydliadau eraill sydd wedi helpu i gynhyrchu'r ddogfen hon, gan gynnwys:

Cylch Chwarae Bodnant, Prestatyn

Cylch Chwarae School Lane, Llandudno

Cylch Meithrin y Bontfaen

Gwasanaethau Ymgynghorol yr AALlau

Mudiad Ysgolion Meithrin

Prifysgol Cymru, Bangor

Ysgol Fabanod Duffryn, Casnewydd

Ysgol Fabanod Troedyrhiw, Merthyr Tudful

Ysgol Feithrin Parc Caia, Wrecsam

Ysgol Gynradd Holton, Y Barri

Ysgol Gynradd Kitchener, Caerdydd

Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref, Pontypridd

Ysgol Gynradd Pontllanfraith, Caerffili

Ysgol Rhiw Bechan, Y Drenewydd.